Cofnodion y **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** a gynhaliwyd yn
Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, nos Lun, 8 Ionawr 2018 am **6:45p.m.**

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Ian Lewney (Cadeirydd), Jim Bryan, Robert Owen-Ellis, Ken Hawkins a John Wynne Hughes.

54. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Stephen Beach, Heather Williams ac Ifan Wyn.

55. DATGAN BUDDIANNAU
Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

56. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL
Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2017 yn gywir.

57. MATERION YN CODI
Hysbysodd y Clerc yr aelodau bod y Co-op wedi cytuno i ddiwygio'r arwydd ar y to i ddefnyddio'r sillafiad 'Rhuthun'.

58. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO
Adroddodd y Clerc na dderbyniwyd unrhyw benderfyniadau cynllunio oddi wrth Gyngor Sir Ddinbych.

59. CEISIADAU CYNLLUNIO
Bu'r Pwyllgor yn ystyried y cais am ganiatâd cynllunio a ganlyn a gyflwynwyd gan Gyngor Sir Ddinbych i gael eu sylwadau.
PENDERFYNWYD*: nad oedd unrhyw wrthwynebiadau i'r cais cynllunio a ganlyn:*
02/2017/1030 – Hew House, Castell Rhuthun, Stryd y Castell, Rhuthun
Adeiladu estyniad ac addasiadau i'r annedd.

60. DIWEDDARIAD AR ADOLYGIAD CYNLLUN DATBLYGU LLEOL SIR DDINBYCH 2006-2021 A'R CYTUNDEB CYFLAWNI AR GYFER Y CDLI NEWYDD
Nododd yr aelodau gynnwys y llythyr diweddaru.
PENDERFYNWYD*: nodi cynnwys y llythyr diweddaru.*

61. ADEILAD YR HEN LYS
Darparwyd diweddariad i'r aelodau yn dilyn cael golwg ar yr adeilad a chyfarfod y gweithgor gyda'r Gwir Anrhydeddus David Jones AS a oedd wedi bod y trafod y sefyllfa gyda'r NatWest. Dywed y banc bod llawer o ddiddordeb yn yr adeilad a chynigiwyd gwneud trefniant rhagbrynu ('pre-emption arrangement') gyda'r Cyngor Tref a fyddai'n golygu bod y Cyngor yn cael cyfle i brynu'r adeilad am yr un pris a'r hyn a gynigiwyd gan ddarpar brynwr arall. Hefyd gofynnwyd iddynt ystyried comisiynu arolwg strwythurol ar yr adeilad.
PENDERFYNWYD*: bwrw ymlaen gyda'r trefniant rhagbrynu ond peidio â chomisiynu arolwg ar hyn o bryd.*

62. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF
PENDERFYNWYD*: mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd nos Lun, 12 Chwefror 2018, am 6:45p.m.*